



UNED 4 – Awn ni nôl i'r gwaith

Gramadeg

Yn yr uned yma byddwn ni'n gwneud y dyfodol cryno (*concise future tense*). I'w creu, rydych chi'n cymryd bôn (*stem*) y ferf ac yn rhoi terfyniadau (*endings*) y dyfodol ar y diwedd.

person	terfyniadau
fi	-a i
ti	-i di
fe	-iff e
hi	-iff hi
ni	-wn ni
chi	-wch chi
nhw	-an nhw

Dyma'r berfau mwyaf cyffredin :

bod	helpu	mynd	gwneud	cael	dod
bydda(f) i	helpa i	a(f) i	gwna(f) i	ca(f) fi	do(f) i
byddi di	helpi di	ei di	gwnei di	cei di	doi di
bydd e	helpiff fe	aiff e	gwnaiff e	caiff e	daw e
bydd hi	helpiff hi	aiff hi	gwnaiff hi	caiff hi	daw hi
byddwn ni	helpwn ni	awn ni	gwnawn ni	cawn ni	down ni
byddwch chi	helpwch chi	ewch chi	gwnewch chi	cewch chi	dewch chi
byddan nhw	helpan nhw	ân nhw	gwnân nhw	cân nhw	dôn nhw

Treigladau

Cofiwch fod **treigladd meddal** bob amser gyda'r **cwestiwn** :

Cawn ni fynd i'r cyfarfod. → **Gawn** ni fynd i'r cyfarfod?
Dof fi gyda ti i'r dderbynfa. → **Ddof** fi gyda ti i'r dderbynfa?

Cofiwch fod **treigladd llaes** bob amser gyda'r **negyddol** :

Prynwn ni ginio heddiw. → **Phrynwn** ni ddim cinio heddiw.
Cawn ni gyfarfod am ddeg. → **Chawn** ni ddim cyfarfod am ddeg.



Adolygu

Ydych chi'n cofio '**byth**' ac '**erioed**' o Uned 3?

Sut byddech chi'n gofyn y cwestiynau yma? Dewiswch unrhyw 6 datganiad (*statement*) a rhowch nhw mewn i gwestiwn.

byth yn hwyr i'r gwaith	byth yn dadlau gyda'r bos	byth yn gyrru	byth yn cerdded amser cinio
erioed wedi yfed coffi	byth yn canu wrth weithio	byth yn darllen e-byst gwaith yn y nos	erioed wedi cael tocyn parcio yn y gwaith
erioed wedi bod i bob campws y Brifysgol	byth wedi nofio ym mhwll nofio'r Brifysgol	byth wedi bod i gampfa'r Brifysgol	erioed wedi bod i gyngerdd yn y Brifysgol

Cwestiynau :

1.	
2.	
3.	
4.	
5.	
6.	



Nawr, dewiswch unrhyw 6 datganiad sy'n wir amdanoch chi (*true about you*) a rhowch nhw mewn brawddegau.

1.	
2.	
3.	
4.	
5.	
6.	

Tasg 1

Meddyliwch am y cwestiynau yma. Mae eleni'n flwyddyn wahanol iawn! Sut byddech chi'n ateb y cwestiynau ar lafar?



- Beth fyddwch chi'n ei wneud y penwythnos nesa?
- Dych chi'n edrych ymlaen at ddathlu rhywbeth arbennig eleni?
- Fyddwch chi'n gwneud rhywbeth am y tro cynta eleni?
- Fyddwch chi'n mynd i rywle newydd yn y chwe mis nesa?
- Fydd rhywbeth pwysig yn digwydd yn y newyddion yn y chwe mis nesa?
- Beth fydd wedi newid yn eich bywyd chi mewn blwyddyn?
- Fyddwch chi'n gwneud rhywbeth diddorol gyda'ch Cymraeg chi eleni?



Edrychwch ar y brawddegau yma :

Af i i'r gwaith yfory.
Ei di i'r parti heno.
Aiff hi adre wedyn.
Awn ni i'r sinema nos yfory.
Ble ewch chi ar wyliau yn yr haf?
Ân nhw ddim i'r cyfarfod yr wythnos nesa.

Caf i frechdanau i ginio.
Cei di ddigon o fwyd yn y parti.
Caiff hi baned o de.
Cawn ni hufen iâ.
Beth gewch chi i de?
Cân nhw amser da.

Tasg 1

Ysgrifennwch y 12 brawddeg eto, gan newid y geiriau sydd wedi eu tanlinellu (change the words that have been underlined) :

1.	2.
3.	4.
5.	6.
7.	8.
9.	10.
11.	12.



Sgwrs

Darllenwch y sgwrs yma sy'n siarad am y dyfodol.

Ar ôl i chi ddarllen y geiriau'n uchel, ail-ysgrifennwch y sgwrs, gan newid y geiriau mewn ffont trwm (*change the words in bold*).

A: Beth **wnei di** nesa?

B: Dw i ddim yn siŵr. Efallai **gwnaf i** gwrs arall.

A: Dw i ddim yn siŵr chwaith, ond dw i'n meddwl **afi** i deithio am ychydig.

B: Ble **ei di**?

A: I Dde America, efallai. Dw i erioed wedi bod yno.

B: Dw i wedi bod yno unwaith. Mae'n wych.

A: Pa gwrs **wnei di**?

B: Does dim syniad gyda fi ond dw i eisiau dysgu rhywbeth newydd. **Edrycha i** ar wefan y coleg heno.

A: Pob lwc.

B: A phob lwc i ti gyda'r teithio hefyd.

--	--



Beth wnewch chi dros y penwythnos?

Gyrrwn ni i Abertawe.

We will drive to Swansea.

Arhoswn ni mewn hostel.

We will stay in a hostel.

Cerddwn ni i'r Mwmbwls.

We will walk to the Mumbles.

Prynwn ni bysgod a sglodion.

We will buy fish and chips.

Ble aiff y teulu Jones dros yr haf?

Ân nhw i Borthcawl.

Beth wnân nhw yna?

Cerddan nhw ar y traeth.

They will walk on the beach.

Nofian nhw yn y môr.

They will swim in the sea.

Arhosan nhw mewn carafán.

They will stay in a caravan.

Gwarian nhw lawer o arian yn y ffair.

They will spend a lot of money in the fair.

Beth wnaiff pawb?

Meddyliwch am bedwar person sy'n gweithio gyda chi.

Ygrifennwch eu henwau yn y golofn chwith (*left hand column*), ac ysgrifennwch beth fyddan nhw'n wneud yn y pum colofn arall.

Yna, rhowch y geiriau mewn brawddegau (*put the words in the columns into sentences*).

Enwau	mynd	gweld	bwyta	yfed	prynu
1.					
2.					
3.					
4.					



Yn y swyddfa

Dyma enghreifftiau o ferfau trydydd person :

Siaradiff Sam â Sara.
Anfoniff Sara neges at bawb.
Anfoniff Sam y papurau at bawb.
Anfoniff Non decst at Tom.
Anfoniff Tom ebost at Emyr.
Ffoniff Emyr Ffion.
Trefniff Ffion ystafell.
Anfoniff Ffion neges at y pennaeth.
Anfoniff y bôs ebost at bawb.



Mae cyfarfod pwysig
yn y gwaith gyda chi!

Beth fydd pawb yn
wneud i baratoi at y
cyfarfod?

Ysgrifennwch restr, yn
debyg i'r rhestr ar y
chwith

Cyfarfod gwaith :



Defnyddio'r negyddol

Dyma enghreifftiau o'r negyddol :

Thaliff e ddim.

He won't pay.

Thaliff hi ddim.

She won't pay.

Yrrwn ni ddim.

We won't drive.

Yrran nhw ddim.

They won't drive.

Gem dis

Os nad oes dis gyda chi, ewch i wefan

<https://www.random.org/dice/> i daflu dis rhithwir (*to throw virtual dice*).



Taflwch dau ddis, a gwnewch frawddegau,

Ysgrifennwch y brawddegau isod, a dywedwch nhw'n uchel.

e.e. dis 1 = **1** + dis 2 = **4** =

Tala i am y cwrs / Thala i ddim am y cwrs.

	Pwy?		Beth?
1.	fi	1.	prynu paned.
2.	ti	2.	darllen e-byst.
3.	fe / hi	3.	ateb y ffôn.
4.	ni	4.	talw am y cwrs.
5.	chi	5.	mynd i'r cyfarfod.
6.	nhw	6.	tacluso'r swyddfa.



Rhoi cymorth - Ymarfer Gwrando 1

Ymarfer - Rhoi cymorth



Ewch i'r ymarfer 'Gwrando' ar dudalen 'Canolradd - Uned 4' ar wefan Dysgu Cymraeg (chwiliwch am y tab uchod) - <https://dysgucymraeg.cymru/dysgu/adnoddau-digidol/canolradd/>

Mae sawl person yn siarad. Mae problemau gyda nhw!
Pwy ddylen nhw ffonio? Gwrandewch, a rhwch y rhif cywir wrth bob un :

Ambiwylans Awyr	
Tîm Cymorth Cyntaf	
Injan dân	
Plymwr	
Bad achub	
Swyddog Iechyd a Diogelwch	
Garej	

Yn yr eira! - Ymarfer Gwrando 2

Sgwrs 2



Nesaf, gwrandewch ar Sgwrs 2 – mae rhywun yn sownd yn yr eira!

Wrth i chi wrando, gallwch ddarllen y sgript isod i'ch helpu gyda geiriau anghyfarwydd (*unfamiliar words*).

Yna, atebwch y cwestiynau yma :

- Dych chi wedi cael problem achos eira erioed?
- Pan dych chi'n codi yn y bore ac yn gweld eira drwy'r ffenest, dych chi'n teimlo'n hapus/yn grac/yn llawn straen?
- Sut dych chi'n helpu pobol mewn eira?
- Dych chi erioed wedi cael help gan rywun mewn eira?
- Dych chi erioed wedi bod yn sgio? Ydy gwyliau sgio yn apelio atoch chi?



- A:** O na! Mae fy nghar i'n sownd yn yr eira!
Do'n i ddim yn disgwyl hyn! Dyw'r olwynion ddim
yn symud o gwbl! Dw i'n hwyr iawn nawr! Pwy fasai'n meddwl...
- B:** Beth yw'r holl sŵn yma? Arhoswch funud, dych chi'n sownd?
- A:** Ydw – ac mae apwyntiad pwysig iawn gyda fi mewn hanner awr!
- B:** Dych chi eisiau help?
- A:** Na, bydda i'n iawn yn y funud. Mae teiars arbennig gyda fi...
- B:** Dych chi'n siŵr? Mae rhaw gyda fi yn y garej. Pala i lwybr i chi o flaen y car.
Ac mae ychydig o halen gyda fi... Rhoia i halen dan yr olwynion a gwthia i'r
car i chi!
- A:** Baswn i'n ddiolchgar iawn, ond cymerwch ofal, faswn i ddim eisiau i
chi gwmpo.
- B:** Cwmpo, wir? Bydda i ma's gyda'r wyrion mewn munud, yn gwneud dyn
eira, ar ôl i fi eu casglu nhw. Mae'r ysgol wedi ffonio – maen nhw'n cau ar
unwaith! Mae'r plant a fi'n edrych ymlaen at sbort a sbri! Daliwch
funud nawr... (sŵn palu, sŵn refio car)
- A:** Wel, diolch am eich help chi. Mae'n debyg... dylwn i ofyn i chi dych chi
eisiau rhywbeth o'r siop?
- B:** Wel, diolch yn fawr i chi, ond cerdda i i'r ysgol i gasglu'r plant a bydda i'n
pasio siop. Gwell i chi fynd i'ch apwyntiad pwysig chi.
- A:** Diolch yn fawr. O, mae eira yn niwsans ofnadwy!
- B:** Mae'n rhyfedd, dych chi'n byw ar y stryd yma ers tair blynedd a dw i
erioed wedi siarad â chi o'r blaen.
- A:** Nac ydych...wel, dw i ddim yn nabod llawer o bobl, dw i'n gweithio oriau hir.
- B:** Arhoswch funud, dw i'n nabod eich llais chi, a'ch wyneb chi hefyd.
- A:** Wel, diolch yn fawr am eich help chi, rhaid i fi fynd nawr.
- B:** Trefor Roberts dw i, pwy dych chi 'te?
- A:** Ym...Elin dw i...
- B:** Elin Haf...menyw'r tywydd ar S4C?
- A:** Ie, dyna chi. Rhaid i fi fynd... (sŵn car yn mynd ar frys)
- B:** Wel, wel, Elin Haf o S4C, doedd hi ddim wedi disgwyl yr eira!



Geirfa

Enwau Benywaidd *Feminine Nouns*

Cymraeg	Saesneg
brechdan/au	sandwich/es
cyngerdd	concert
gwefan/nau	website/s
injan dân	fire engine
olwyn/ion	wheel/s
rhaw/iau	spade/s

Enwau Gwrywaidd *Masculine Nouns*

Cymraeg	Saesneg
Ambiwlans Awyr	Air Ambulance
apwyntiad/au	appointment/s
bad/au achub	life boat/s
cyngerdd	concert
llwybr/au	path/s
plymwr/wyr	plumber/s
swyddog/ion iechyd a diogelwch	health and safety officer/s
Tîm Cymorth Cyntaf	First Aid Team

Berfau

Verbs

Cymraeg	Saesneg
dadlau	to argue
dathlu	to celebrate
palu	to dig
teithio	to travel



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Cwrs Canolradd



Rhagoriaith
CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG